Archwiliadau Gwerth am Arian o'r sector Addysg Uwch

14/06/2013

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 11 Mehefin 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 30 Mai 2013, sef:

A ydych wedi cynnal unrhyw archwiliadau gwerth am arian o'r sector Addysg Uwch?
A oes gennych fethodoleg benodol rydych yn ei mabwysiadu er mwyn cynnal archwiliadau gwerth am arian?

Yn 2005, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad sy'n dwyn y teitl "Rheoli Ynni a Dwr yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru"

Yn 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n dwyn y teitl "Cydweithio rhwng Sefydliadau Addysg Uwch"

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cynnal astudiaeth gwerth am arian sy'n ymdrin â "Rheoli a chynllunio ariannol ym maes addysg uwch".

Dylwn esbonio'r gwahanol awdurdodau statudol sy'n galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliadau gwerth am arian yn y sector Addysg Uwch. Ac eithrio drwy gytundeb, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaethau o sefydliadau Addysg Uwch fel y cyfryw. Yn lle hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn edrych ar y defnydd o arian cyhoeddus a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), gan gynnwys y trefniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru a CCAUC i sicrhau gwerth am arian o'r fath wariant. O dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau gwerth am arian o CCAUC, ac o dan adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau gwerth am arian o Lywodraeth Cymru. O dan adran 145A o Ddeddf 1998 gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau gwerth am arian sy'n arwain at argymhellion ar gyfer gwella i CCAUC a Llywodraeth Cymru. At hynny, o dan adran 145B o Ddeddf 1998, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau gwerth am arian o gorff llywodraethu sefydliad addysgu uwch yng Nghymru ar gais y corff llywodraethau neu CCAUC.

Nid oes gennym un fethodoleg benodol ar gyfer ein hastudiaethau gwerth am arian. Cynhelir astudiaethau yn unol â'n Llawlyfr Archwilio Perfformiad a chanllawiau mewnol eraill. Nodwedd gyffredin yw ein bod yn defnyddio dull gweithredu a elwir yn Dadansoddi Materion / Llunio Casgliadau (IADC) i ddatblygu, yn gyntaf, hierarchaeth o gwestiynau rydym yn ceisio eu hateb drwy ein gwaith archwilio (Dadansoddi Materion) ac wedyn dwyn ynghyd y casgliadau lefel uchel sy'n deillio o'n gwaith (Llunio Casgliadau). Mae'r casgliadau hyn yn darparu strwythur y fframwaith ar gyfer ein hadroddiadau cyhoeddedig.

Mae croeso i chi gysylltu â mi hefyd os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips